

## **MYFYRDOD YN YSTOD CWARANTIN Y CORONAFEIRWS**

Mae caethiwed yn gallu gwneud pethau rhyfedd i'r meddwl. Gall olygu unigrwydd mawr, ond fe all hefyd roi straen ar berthynas – er enghraifft perthynas gwŷr a gwraig nad ydynt wedi arfer bod gartref gyda'i gilydd drwy'r amser o dan amodau caeth fel y presennol. Ar y llaw arall, wrth gwrs, mae'r gofod cyfyngedig yn rhoi cyfle i adnabod ein gilydd yn well. Nid yw caethiwed yn ddrwg bob tro. Mae'n gallu gwneud i rywun feddwl yn ddyfnach am bethau dwys.

Mae Duw yn gwybod beth rydym yn mynd trwyddo ac fe all ddefnyddio amseroedd dyrys fel hyn, pan aflonyddir ar ein bywydau, i'n galluogi i fyfyr, edifarhau a chanolbwytio o'r newydd ar y pethau sydd o werth yn ysbrydol.

**“Os byddaf wedi cau'r nefoedd fel na fydd glaw, neu orchymyn i'r locustiaid ddifa'r ddaear, neu anfon pla ar fy mhobl, ac yna bod fy mhobl, a elwir wrth fy enw, yn ymostwng a gweddïo, a'm ceisio a dychwelyd o'u ffyrdd drygionus, yna fe wrandawaf o'r nef, a maddau eu pechod ac adfer eu gwlad”.** (2 Cronicl 7:13-14)

Ynghanol cyfnod caethiwed ac ansicrwydd pandemig y coronafeirws – sydd yn lledaenu ofn, panig ac amheuaeth trwy'r byd – beth am i ni, ddilynwyr yr Iesu, fanteisio ar y cyfle yma i ddod i'w adnabod Ef yn well? Beth am ledaenu cariad, gobaith a ffydd yn lle ofn, panig ac amheuaeth?

Y cwestiwn y dylem i gyd geisio ei ateb yw'r un sydd i'w weld ym mhennod 22 yr Efengyl yn ôl Mathew (Mathew22:42): **“Beth yw eich barn chwi ynglŷn â'r Meseia?”** Pa well amser nag yn awr i fyfyr ar hyn.

A ninnau yn agosáu at y Pasg, ac yn troi ein meddyliau yn arbennig at ddiodeffaint ein Harglwydd Iesu Grist a'i atgyfodiad gogoneddus, fe gofiwn:

### **Ei fywyd perffaith**

Ni all undyn byw gyrraedd unrhyw beth tebyg i safon ei fywyd. Ef yw'r Haul, a phan ddaw'r Haul allan mae'r sêr yn diflannu.

### **Ei eiriau**

Yn eu huniongyrchedd, eu symrlwydd a'u nerth, ni all dim gymharu â geiriau'r Iesu.

### **Ei waith**

Gwelodd y rhai oedd gydag ef weithredoedd goruwchnaturiol.

### **Ei ddylanwad**

Dylanwad yr Iesu, pwy all ei fesur?

Mae'n **gydradd** (Ioan 5:23) â Duw y Tad; yn **un** (Ioan 10:30) â'r Tad ac o'r un **hanfod** (Ioan 14:9) â'r Tad.

### **Ei fuddugoliaeth dros farwolaeth**

Bu farw'r Iesu dros ein pechodau. Ac fe atgyfododd yn wir. A hwythau'n dystion i'w atgyfodiad, gweddnewidiwyd ei ddisgyblion, y rhai a fu mor ofnus. Be arall allasai droi rhai mor llwfr yn arwyr?

Yng nghanol y pryder a'r ofn y mae pobl yn ei wynebu yn ein dyddiau ni, gweddïwn am heddwch yn ein calonnau, ac ar i'r heddwch hwnnw ddisgleirio i'r rhai o'n cwmpas. Ein cysur yw bod Duw yn fwy ac yn uwch nag unrhyw rwystr, a bod popeth yn ei ddwylo Ef. Gadewch inni yn ystod yr amser hwn a'i dreialon rannu'r heddwch, darllen y Beibl, gweddïo dros ein gilydd ac ymddiried yn rhagluniaeth a thangnefedd Duw. **AMEN**

Owie Morris, Horeb, Bae Colwyn, Ardal Dyffryn Conwy 25 Mawrth 2020